**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-MDFWL-3074-25
Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Chwefror 2026

Annwyl Mike

**Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Ysgrifennaf ymhellach at eich llythyr ar 13 Chwefror yn gofyn am ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

Ynddo rydych chi'n cyfeirio "at fater o gonfensiwn seneddol hir sefydlog ac o gwrteisi democrataidd bod Llywodraeth Cymru yn ymateb yn llawn i adroddiadau pwyllgorau'r Senedd". Fodd bynnag, ac eithrio ymatebion i'r Pwyllgor Cyllid, nid yw hyn yn wir am adroddiadau sy'n ymwneud â deddfwriaeth, pan fo ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol, mae'r ddadl Egwyddorion Cyffredinol yn caniatáu i'r Senedd drafod casgliadau'r pwyllgorau craffu.

Ysgrifennais yn fanwl am argymhellion 1 a 2 cyn y ddadl Egwyddorion Cyffredinol, ac roedd fy llythyr at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 12 Ionawr 2026, y cawsoch gopi ohono, yn nodi:

- fy mwriadau mewn perthynas â'r pwerau o dan y Bil (argymhelliad 4);
- manylion arwyddocaol mewn perthynas ag adrannau 46 a 47 (argymhelliad 9);
- fy mwriad i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 mewn perthynas â 6 argymhelliad arall (sef 3, 5, 6, 7, 8 a 10).

Trafodwyd llawer o'r materion hyn hefyd yn y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ac felly nid oeddwn o'r farn bod angen ymateb ysgrifenedig pellach. Fodd bynnag, gan eich bod wedi gofyn am ymateb, gweler isod gadarnhad o fy ymateb i bob un o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 1**
Cyn y ddadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn egluro sut y gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet asesu'r Bil fel un sy'n gydnaws ag Erthygl 1 o Brotocol 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Dylai'r datganiad hwnnw gynnwys rhesymeg yr Ysgrifennydd Cabinet dros ddod i'r casgliad:

i. y gellir cyfiawnhau ymyrryd â hawliau eiddo pan fydd hynny o fudd i'r cyhoedd; a
ii. bod sail resymol dros y darpariaethau yn y Bil a'u bod yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng gofynion budd cyffredinol y gymuned a diogelu hawliau sylfaenol unigolyn.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Aethpwyd i'r afael â hyn yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 9 Ionawr.

**Argymhelliad 2**
Cyn y ddadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro a yw wedi nodi unrhyw angen i ddiwygio'r casgliadau ar hawliau dynol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ganlyniad i dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod Cyfnod 1.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Fel y nodais yn fy llythyr ar 9 Ionawr, rwy'n hapus i gadarnhau nad yw hyn wedi bod yn angenrheidiol, ac rwy'n parhau i fod yn fodlon bod y Bil yn cydymffurfio â hawliau'r Confensiwn.

**Argymhelliad 3**
Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Cyflwynwyd y gwelliant a chytunwyd arno yng Nghyfnod 2, ac mae bellach wedi'i gynnwys yn y Bil.

**Argymhelliad 4**
Dylai Llywodraeth Cymru adolygu priodoldeb y pwerau dirprwyedig yn y Bil, ac ystyried a ddylid dileu neu gyfyngu ar unrhyw rai ohonynt.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Mae'r pwerau yn y Bil wedi cael eu hadolygu, ac rwy'n ystyried bod y rhai sy'n dal i fod ynddo yn angenrheidiol. Fodd bynnag, yn dilyn yr argymhellion gan Bwyllgorau LJC ac ETRA, cyflwynwyd nifer o welliannau a chytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2, naill ai i wella'r gweithdrefnau ar gyfer rhai pwerau yn y Bil, neu i gyfyngu ar eu cwmpas. O ganlyniad, mae troseddau a grëwyd mewn rheoliadau wedi'u cyfyngu i droseddau diannod yn unig, y gellir eu cosbi â dirwyon. O'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ar hyn o bryd, mae 75% bellach yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, sy'n fy marn i yn gydbwysedd priodol.

**Argymhelliad 5**
Os yw Llywodraeth Cymru o blaid cadw'r pwerau yn y Bil sy'n galluogi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i estyn cwmpas y Bil drwy reoliadau er gwaethaf argymhelliad 4,

dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i wneud y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 5(1)(b) yn ddarostyngedig i uwch-weithdrefn gymeradwyo sy'n cynnwys gofyniad:

i. i ymgynghori am gyfnod gofynnol, gan gynnwys gyda phwyllgorau'r Senedd;
ii. i wneud datganiad cyn y gwneir unrhyw reoliadau o'r fath, yn nodi manylion canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw (gan gynnwys meysydd y cytunir ac yr anghytunir arnynt gyda rhanddeiliaid) ac, yn unol â hynny, sut y mae'r rheoliadau wedi rhoi ystyriaeth i ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Cyflwynais welliant, y cytunwyd arno yng Nghyfnod 2, i ymgynghori am gyfnod o 12 wythnos cyn defnyddio'r pŵer o dan baragraff 5(1)(b). Mae'r pŵer ei hun eisoes yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, ac, yn ogystal, mae Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi Memorandwm Esboniadol ochr yn ochr ag unrhyw reoliadau a osodir, sy'n cynnwys adran ar ymgynghori, ac mae'n cwmpasu'r materion yn rhan ii o'ch argymhelliad. Credaf fod hyn yn ddigonol i'r Senedd gyflawni ei rôl wrth graffu ar reoliadau o dan yr adran hon a gwneud penderfyniad gwybodus.

**Argymhelliad 6**
Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i adran 25 o'r Bil i gynnwys ar ei wyneb y troseddau newydd a fyddai'n gymwys mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Cyflwynais welliannau, y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2, yn dileu'r pŵer i ragnodi troseddau ar gyfer adran 25, oherwydd wedi meddwl ymhellach, yr unig droseddau a fyddai'n gymwys ar gyfer dod â thrwydded i ben ac adnewyddu trwydded yw'r rhai sydd eisoes wedi'u nodi ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 7**
Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 57(4) o'r Bil i wneud y pwerau gwneud rheoliadau yn adran 27(2) yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Cyflwynais welliannau, y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2, i wneud y pwerau yn adran 27 yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

**Argymhelliad 8**
Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 57(4) o'r Bil i wneud y pwerau gwneud rheoliadau yn adran 40(4) yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**
Cyflwynais welliannau, y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2, i wneud y pwerau yn adran 40(4) yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

**Argymhelliad 9**

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 46(1) o’r Bil i ddarparu bod y gofynion hysbysebu a marchnata yn yr adran honno, ac y mae’r drosedd yn adran 47(1) yn ymwneud â hi, i’w gwneud gan reoliadau sy’n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo’r Senedd.

**Ymateb y Llywodraeth – Gwrthod**

Mae'r Bil eisoes yn nodi'r hyn sydd ei angen, sef rhif cofrestru'r safle a gwybodaeth am sut i gael mynediad i'r cyfeiriadur i ddefnyddio'r rhif hwnnw. Bydd angen i'r dull o nodi'r ffordd y mae'n rhaid arddangos yr wybodaeth gwmpasu ystod eang o senarios, megis mathau o ddarparwyr, platfformau, asiantau archebu, cyfryngau hysbysebu ac ati. Mae'r math hyn o fanylion gweithredol yn fwy addas ar gyfer canllawiau.

Mae'r rhan hon o'r Bil, fodd bynnag, yn dal i gael ei hystyried i'w diwygio yng Nghyfnod 3, gyda'r bwriad o egluro rhwymedigaethau ac atebolrwydd y rhai sy'n cael eu dal gan y gofynion hyn, yn enwedig trydydd partïon sy'n hysbysebu a/neu farchnata llety ymwelwyr.

**Argymhelliad 10**

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adrannau 52 a 53 o’r Bil i gynnwys ar ei wyneb y troseddau newydd a fyddai’n gymwys mewn perthynas ag achosion lle mae Darparwr Llety Ymwelwyr yn marw, yn dod yn analluog neu’n dod yn destun gweithdrefn ansolfedd, neu fel arall yn peidio â bodoli.

**Ymateb y Llywodraeth – Derbyn**

Cyflwynais welliannau, y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod 2, a ddiwygiodd y Bil yng ngoleuni'r argymhelliad hwn.

Mabwysiadais ddull gwahanol, gan nad oeddwn yn dymuno rhagflaenu'r hyn a allai fod yn angenrheidiol wrth wneud darpariaeth o'r fath, tra'n sicrhau bod y rhyngweithio parhaus rhwng cofrestru a thrwyddedu yn gweithredu fel y bwriadwyd o dan yr holl amgylchiadau. Yn hytrach, rwyf wedi cyfyngu'r pwerau hynny fel y gallant greu troseddau diannod y gellir eu cosbi â dirwy yn unig. Mae hyn yn sicrhau bod pob trosedd yn gyson trwy'r Bil cyfan, ac na all unrhyw droseddau o'r fath arwain at ddedfryd o garchar.

Gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol, a hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor, am eich craffu ystyriol ar y Bil.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Cyllid er gwybodaeth.

Yn gywir



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language